



Arweiniad i PURE – Thesis  
*Sut i gyflwyno eich e-thesis terfynol drwy PURE*

**Cymorth a chefnogaeth**


I wneud ymholiadau sy'n gysylltiedig â thesis cysylltwch â Michelle Walker, Rheolwr Cadwrf a Data Ymchwil, [repository@bangor.ac.uk](mailto:repository@bangor.ac.uk)

I gael cymorth technegol gyda'r system PURE cysylltwch â: Desg Gymorth TG, [helpdesk@bangor.ac.uk](mailto:helpdesk@bangor.ac.uk)

## Sut i gyflwyno eich e-thesis terfynol drwy PURE


Mae'r arweiniad cam wrth gam hwn yn egluro sut i ddefnyddio PURE i gofnodi'r manylion am eich thesis terfynol. Ar ôl i chi gael cadarnhad bod eich cywiriadau wedi'u cwblhau, llwythwch eich traethawd ymchwil ar PURE gan ddefnyddio'r camau canlynol.

1. Mewngofnodwch i PURE drwy <http://pure.bangor.ac.uk> gan ddefnyddio eich enw defnyddiwr Prifysgol Bangor a'ch cyfrinair. Bydd hyn yn mynd â chi at eich tudalen proffil personol.
2. Cliciwch ar y botwm gwyrdd "Ychwanegu cofnod newydd" ar y dde ar frig y sgrin.



Bydd ffenestr newydd yn agor.

Select "Traethodau ymchwil myfywyr" > "Traethodau ymchwil myfywyr".



Yna dewiswch naill ai "Graddau Meistr trwy Ymchwil", "Meistr mewn Athroniaeth" "Doethuriaethau Proffesiynol" neu "Ddoethur mewn Athroniaeth".

Bydd ffurflen newydd yn agor. Mae'r meysydd gorfodol wedi'u dynodi gyda \* . Mae'r holl feysydd eraill yn ddewisol.

Lle bynnag y gwelwch y symbol ⓘ mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy hofran dros yr eicon neu glicio ar yr eicon.

3. Bydd angen i chi ddewis **lefel y cymhwyster**, gallwch ddewis naill ai Meistr trwy Ymchwil, Meistr mewn Athroniaeth, Doethuriaethau Proffesiynol neu Ddoethur mewn Athroniaeth.

- Mae **iaith wreiddiol** y gwaith yn orfodol, a gellwch ei ddewis gan ddefnyddio'r gwymplen. Rydym yn cofnodi'r thesis yn yr iaith y cafodd ei ysgrifennu. Nid ydym yn cyfieithu'r wybodaeth hon.

Gwybodaeth am gynnwys y traethawd ymchwil

iaith wreiddiol\*  
Cymraeg

- Rhowch **deitl yr aseiniad**

- Ychwanegwch eich **Crynodeb** os ydych yn hapus i grynodedb y thesis fod ar gael yn gyhoeddus.

- Ychwanegwch eich hun fel yr **Awdur**. Dylech gael eich ychwanegu'n awtomatig fel awdur yr eitem a dylai eich ysgol gysylltiedig gael ei rhestru.

Os nad ydych wedi cael eich ychwanegu fel awdur am unrhyw reswm, gallwch chwilio am eich enw yn y bar chwilio awduron Prifysgol Bangor.

Os bydd PURE yn cael hyd i chi, bydd angen i chi roi tic wrth yr ysgol gysylltiedig lle yr ydych/yr oeddech wedi eich cofrestru.

Cysylltiad â'r traethawd ymchwil myfyriwr

Hanes ac Archaeoleg (1/09/07 – 31/05/13)

Ar ôl gorffen, cliciwch Creu

Os oes unrhyw broblemau gyda'r ffordd y caiff hwn ei arddangos cysylltwch â repository@bangor.ac.uk

- Ychwanegwch enw eich **Goruchwyliwr/wyr**, cliciwch ar "Ychwanegu unigolyn" a chwiliwch am eich goruchwyliwr yn ôl cyfenw. Gellir defnyddio'r botwm "Ychwanegu unigolyn" eto i ychwanegu mwy nag un goruchwyliwr. Os ydych eisiau ychwanegu goruchwyliwr allanol, cliciwch ar "Ychwanegu unigolyn" a "Creu unigolyn allanol newydd" a theipio eu henwau.

Goruchwyliwr

Goruchwyliwr

Ychwanegu goruchwylydd

- Ar gyfer **dyddiad y dyfarniad**, rhowch y flwyddyn, bydd tîm y gadwrfa yn ychwanegu'r dyddiad terfynol unwaith y bydd y radd wedi ei dyfarnu.
- Cliciwch ar **Sefydliad dyfarnu** a theipiwch Prifysgol Bangor a dewiswch "Prifysgol Bangor" o'r dewisiadau
- Os cawsoch unrhyw gyllid, neu noddwyd eich thesis PhD gan gorff/cwmni/asiantaeth gyllido allanol, ychwanegwch eich **noddwyr** trwy glicio ar "Ychwanegu sefydliad allanol". Teipiwch enw'r sefydliad oedd yn eich ariannu a chwiliwch; os nad yw'n ymddangos yng nghanlyniadau'r chwilio, cliciwch ar "Creu o'r newydd".


Noddwyr

Ychwanegu sefydliad allanol...

- Ychwanegwch rai **geiriau allweddol** perthnasol sy'n disgrifio eich thesis

Allweddeiriau ⓘ

ALLWEDDEIRIAU



Defnyddiwch y blwch testun rhydd i ychwanegu geiriau allweddol sy'n disgrifio maes eich thesis orau.

Gallwch ychwanegu gymaint o eiriau allweddol gwahanol ag sydd eu hangen.

**SYLWCH: Ychwanegwch lefel y cymhwyster rydych wedi ei gael fel gair allweddol - er enghraifft Meistr yn y Celfyddydau trwy Ymchwil (MAREs), ewch i Atodiad A i weld y dewisiadau**

- Ychwanegwch destun llawn eich thesis trwy glicio ar Ychwanegu dogfen.

Cliciwch:

Dogfennau ⓘ


Dogfennau

Ychwanegu dogfen...

Mae ffenest newydd yn agor, llusgwch eich ffeil drosodd neu gliciwch ar "browse" i leoli'r ffeil yn eich dogfennau.

Golygu

Enw'r ffeil

 Llusgo ffeil neu **chwilio** eich cyfrifiadur.

Teitl y ffeil


Math

Traethawd ymchwil ▾

Cweledd

Cyhoeddus - Dim cyfyngu ▾

Dan embargo tan



Rheswm dros yr embargo

- Ychwanegwch destun llawn eich thesis ac unrhyw ffeiliau atodol.

**SYLWCH: Os yw eich thesis yn cynnwys deunydd hawlfraint trydydd parti sylweddol neu faterion GDPR, ychwanegwch ddau gopi digidol ar wahân o'r thesis. Un fersiwn gyflawn o'r thesis (fel y'i harchwiliwyd) ac un fersiwn gryno gyda'r deunydd hawlfraint trydydd parti wedi'i dynnu allan.**

- You can add multiple files if you have separate Appendices.
- Bydd teitl y ffeil yn cael ei gynhyrchu'n awtomatig o enw eich ffeil.

**SYLWCH: Rydym yn argymhell bod y thesis yn cael ei lwytho i fyny fel ffeil PDF a bod yr enw canlynol yn cael ei roi ar y ffeil: blwyddyn + cyfenw + blaenlythrennau + gradd + estyniad y ffeil (e.e. 2017Hallphd.pdf)**

- Dewiswch y math o ffeil "Traethawd ymchwil" neu "Deunyddiau atodol".
- Yn Visibility, dewiswch "Y tu cefn – Cyfyngedig i ddefnyddwyr Pure". Bydd tîm y gadwrfa yn sicrhau bod y thesis ar gael yn agored unwaith y byddwn wedi dilysu'r holl fanylion.
- Gadewch y dyddiad cau Embargo a'r rheswm am Embargo yn wag. Os ydych chi'n gwneud cais am embargo trwy eich goruchwyliwr, bydd tîm y gadwrfa yn diweddarau'r maes hwn ar ôl i ni dderbyn yr hysbysiad cywir gan yr Ysgol Ddoethuriaeth.
- Cliciwch ar y botwm Creu glas.
- Gwnewch hyn ar gyfer unrhyw ffeiliau ychwanegol.
- Os ydych chi eisiau ychwanegu ffeiliau data mawr gyda'ch thesis, cysylltwch â [repository@bangor.ac.uk](mailto:repository@bangor.ac.uk) i drafod.

**SYLWCH: PEIDIWCH â chynnwys copiâu o erthyglau cyhoeddiedig o fewn eich thesis. Yn hytrach, rhowch ddolen / DOI iddynt yn yr adran Dolenni.**

14. Ar y pwynt hwn hefyd mae angen i chi lwytho copi wedi'i lofnodi o'r ffurflen datganiad, y bydd angen i chi ei llenwi cyn cadw eich thesis terfynol. Mae'r ffurflen datganiad i'w chael yma:
15. Gadewch y **meysydd dolenni, nodyn llyfryddol a chysylltiadau** yn wag
16. Yn yr adran Gwelededd, dewiswch "Y tu cefn – Cefyngedig i ddefnyddwyr Pure" o'r gwymplen. Bydd tîm y Gadwrfa yn gwneud y cofnod yn weladwy unwaith y bydd y cofnod wedi'i wirio, ac yr ydym wedi derbyn cadarnhad bod y radd wedi'i dyfarnu.
17. Yn olaf, gwiriwch yr holl wybodaeth rydych wedi ei hychwanegu, gadewch y statws i'w ddilysu a cliciwch ar y botwm "Cadw" glas.

Statws:

**Nodyn: Mae hyn yn cwblhau gofynion y Brifysgol ar gyfer cyflwyno eich traethawd ymchwil. Gwiriwch hefyd a yw'ch cyllidwr / noddwr / llysgenhadaeth / goruchwyliwr yn gofyn am eich traethawd ymchwil terfynol mewn fformat arall (ee copiâu wedi eu hargraffu) a sicrhau eich bod yn cwblhau eu gofynion, gan gynnwys unrhyw ofynion i sicrhau bod y data crai ar gael.**

## **Atodiad A – Byrfoddau lefel cymhwyster**

### **Cymhwyster trwy Ymchwil:**

Meistr yn y Celfyddydau trwy Ymchwil (MARes)  
Meistr mewn Gweinyddiaeth Fusnes trwy Ymchwil (MBARes)  
Meistr mewn Addysg trwy Ymchwil (MEdRes)  
Meistr yn y Cyfreithiau trwy Ymchwil (LLMRes)  
Meistr mewn Gweinidogaeth trwy Ymchwil (MMinRes)  
Meistr mewn Cerddoriaeth trwy Ymchwil (MMusRes)  
Meistr mewn Gwyddoniaeth trwy Ymchwil (MScRes)  
Meistr mewn Diwinyddiaeth trwy Ymchwil (MThRes)

**Meistr mewn Athroniaeth:** (MPhil)

### **Doethuriaethau Proffesiynol:**

Doethur mewn Seicoleg Glinigol (DClinPsy)  
Doethur yn y Weinidogaeth (DMin)  
Doethur mewn Addysg (EdD)  
Doethur mewn Gofal Iechyd (DHealthCare)

**Doethur mewn Athroniaeth:** (PhD)